Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

Dai Lloyd AC

Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

15 Hydref 2018

Annwyl Dai,

COST GOFALU AM BOBLOGAETH SY'N HENEIDDIO

Rwy'n falch o atodi adroddiad y Pwyllgor ynghylch *cost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio*, a osodwyd ar 12 Hydref 2018.

Wrth gymryd tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn, ac fel y nodir yn ein hadroddiad, clywodd y Pwyllgor bryderon ynghylch costau annisgwyl sy'n deillio o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Gan fod y Ddeddf o fewn cylch gorchwyl eich Pwyllgor chi, mae'r Pwyllgor wedi gofyn i mi ddwyn eich sylw at hyn, yn y gobaith y gallwch edrych ar y mater hwn maes o law.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AC

Cadeirydd dros dro y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565